










# Yr Her:

Yn ystod gwyliau'r Pasg, wnaethoch dderbyn hedyn hudol gan Mr Davies. Hoffwn i chi blannu'r hedyn yma'n ofalus gan sicrhau ei fod yn cael digon o ddŵr a golau haul. Beth am dynnu lluniau o'r planhigyn gan ddefnyddio camera neu gyda phapur a phensil? Beth am gofnodi tyfiant y planhigyn? Peidiwch anghofio ei fwydo! Edrychwch ar ei ôl! Edrychwn ymlaen at weld y planhigion yn tyfu a'ch arsylwadau.

## Pwyntiau trafod i rieni:

- Beth sydd angen ar blanhigyn i dyfu?
- Beth yw rhannau gwahanol y planhigyn?
- Sawl planhigyn gwahanol gallwch chi ddarganfod ar daith gerdded/yn yr ardd?
- Gallwch chi ddidoli planhigion/blodau gwahanol?
- Beth yw eich hoff flodyn? Pam?
- Pa flodau mae trychfilod yn hoffi? Pam?
- Sawl trychfil ydych chi'n gallu gweld ar eich taith gerdded/yn yr ardd?



# Cynllun pythefnos: Natur/Tyfu (Bl 1 & 2)

## Rhaid gwneud….

| | | |
|---|---|---|
| • Dysgu geiriau sillafu wythnosol. Mae'r geiriau ar Spell j2blast i'w ymarfer!<br>• Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • Ymarfer tablau mathemateg (Bl 1 – tabl 1, 2, 5 a 10/ Bl2 – tablau 1, 2, 5 a 10 i ddechrau a thabl 3 fel her!)<br>• Mathemateg – Bondiau rhif hyd at 100 – adio a thynnu.<br>• Adnabod a chyfrif cyfansymiau arian<br>• Adnabod amser e.e. o'r gloch, hanner awr wedi, chwarter awr wedi a chwarter i. | Joe Wicks – sesiwn fyw ar 'YouTube' am 9:00yb<br>Cofwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>Cosmic Kids Yoga – sesiwn ar 'YouTube'<br>Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb. |

## Dylech wneud….

| | | |
|---|---|---|
| Ysgrifennwch restr o fwyd addas ar g bwydo'r adar. | Crëwch siapiau 2D a 3D gan ddefnyddio deunyddiau naturiol. | Ewch ar daith synhwyrau. Cofnodwch yr yr ydych yn gweld, clywed, teimlo, arogli a blasu. |
| Crëwch fap meddwl o eiriau sy'n gysylltiedig â 'Natur a Thyfu'. | Lluniwch flodyn gan sicrhau ei fod yn gymesur. | Crëwch westy trychfilod gan ddefnyddio deunyddiau naturiol. |
| Ysgrifennwch set o gyfarwyddiadau yn esbonio sut i edrych ar ôl eich hedyn hudol oddi wrth yr ysgol. | Cofnodwch tymheredd y dydd. Os hoffwch, lluniwch raff llinell ar Hwb. Beth am drafod/ddadansoddi'r data a gasglwyd? | Crëwch fideo o'ch hun yn dynwared symudiadau anifeiliaid/trychfilod. |

## Gallaf wneud….

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO (ar wefan yr ysgol)<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen y newyddion diweddaraf<br>ACTIV-I-TI – sesiynau ar lein o 1:00yp<br>Ymholiadau Gwyddonol - Gwefan STEM stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd UKTWINKLHELPS | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>Minecraft – Ferswin Addysgiadol ar HWB i lawrlwytho<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'My Maths School'<br>British Council - Straeon i blant<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref<br>Celf Helen Elliot – Pob dydd Mercher a Gwener am 3:00yp<br>Coginio gyda Jamie Oliver am 12:00 yp | Orielodl – fideo cam wrth gam - Dwdl y Dydd<br>PBSkids.org – Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com<br>Gwersi canu gyda Myleene Klass am 10:00 yb |